# DRAFT MINUTES

| | |
|---|---|
| Meeting ID | 2234 |
| Committee | Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Date | 10/12/2020 |
| Attendees | Cynghorwyr Stephen Thomas (Cadeirydd)<br>Cynghorwyr Keri Rowson (Is-gadeirydd)<br>Cynghorwyr Derrick Bevan (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Garth Collier (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Gareth A. Davies (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Gareth L. Davies (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Phil Edwards (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Keith Hayden (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Wayne Hodgins (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Julie Holt (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Amanda Moore (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Greg Paulsen (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Tim Sharrem (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Bob Summers (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Tommy Smith (Aelod Pwyllgor)<br>Damien McCann (Swyddog)<br>Tanya Evans (Swyddog)<br>Gemma Wasley (Swyddog)<br>Alyson Hoskins (Swyddog)<br>Liz Thomas (Swyddog)<br>Gwasanaethau Democrataidd (Notify)<br>Leeann Turner (Secretary)<br>Pob Cynghorydd (Notify)<br>Sean Scannell (Notify)<br>Louise Bishop (Notify)<br>Anne-Louise Clark (Notify)<br>Richard Crook (Notify)<br>Rhian Hayden (Notify)<br>Michelle Morris (Notify)<br>Steve Berry (Swyddog)<br>Andrea Jones (Swyddog)<br>Emma Bennett (Notify) |

| | |
|---|---|
| Item ID | 4025 |
| Item Title | Cyfieithu ar y Pryd |
| Summary | Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. |

| | |
|---|---|
| | |

| | |
|---|---|
| Item ID | 4026 |
| Item Title | Ymddiheuriadau |
| Summary | Ni adroddwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 4027 |
| Item Title | Datganiadau Buddiant a Goddefebau |
| Summary | Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 4028 |
| Item Title | Cofnodion Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Summary | Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod o’r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol a gynhaliwyd ar 5 Tachwedd 2020.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i gadarnhau’r cofnodion. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 4087 |
| Item Title | Diweddariad Cronfa Gofal Integredig (ICF) 2019/20 |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a gyflwynwyd i roi trosolwg ar y dyraniad presennol o gyllid ar gyfer prosiectau a gaiff eu monitro gan yr adran Gwasanaethau Cymdeithasol ac a gyllidir drwy Gronfa Gofal Integredig (ICF) Llywodraeth Cymru fel ym mis Tachwedd 2020.<br><br>Siaradodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol am yr adroddiad a hysbysodd Aelodau fod Llywodraeth Cymru wedi rhoi diweddariad llafar am ymestyn y gronfa ymhellach ar gyfer y flwyddyn bontio (2021/22), fodd bynnag ni chafwyd cadarnhad swyddogol hyd yma o’r union ddyraniad. Pedwar maes allweddol yr ICF yw:<br><br>• Pobl hŷn gydag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor yn cynnwys dementia<br>• Pobl gydag anableddau dysgu<br>• Plant gydag anghenion cymhleth oherwydd anabledd neu salwch<br>• Gofalwyr, yn cynnwys gofalwyr ifanc<br><br>Yng nghyswllt prosiectau a nodwyd fel blaenoriaeth uchel/critigol, holodd y Cadeirydd os yw’r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a phartneriaid rhanbarthol wedi gwneud ymdrechion cadarn i godi pryderon gyda Llywodraeth Cymru am yr effaith niweidiol y byddai dileu’r cyllid yn ei gael ar y prosiectau hyn. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion fod Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a hefyd yr Aelod Gweithredol |

| | |
|---|---|
| | Gwasanaethau Cymdeithasol fel cynrychiolwyr ar y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi tynnu sylw'n barhaus at y pryderon dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae graddiad risg y prosiectau wedi rhoi dealltwriaeth glir o'r effaith o hyn ymlaen a rhoddwyd yr adroddiad terfynol i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar y graddiad risg a'r pwysau ariannol.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am sut y gallai effaith staff yn gadael effeithio ar redeg y gwasanaethau, dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion y bu hyn yn her drwy gydol y prosiectau ICF, ond gyda sicrwydd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyllid am y flwyddyn ychwanegol, nid oedd nifer sylweddol o staff wedi gadael ond mae hyn yn risg uchel yn gysylltiedig ag unrhyw raglen cyllid grant.<br><br>Yng nghyswllt swyddi, holodd Aelod am y gwahaniaeth rhwng swyddi wte (cyfwerth ag amser cyflawn) a swyddi cyfwerth ag amser llawn. Eglurodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion y gwahaniaeth rhwng y ddau; mae nifer o swyddi yn rhai rhan-amser a gall rhai staff sydd â swyddi parhaol rhan-amser o fewn yr awdurdod lleol fod yn gweithio'n llawn-amser drwy wneud yr oriau lan yn defnyddio cyllid ICF.<br><br>Gofynnodd Aelod am ddiweddariad ar yr estyniad a gynigir i Tŷ Augusta, Glynebwy. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion y bu oedi i ddechrau oherwydd y pandemig ond y cafodd cynlluniau eu hadolygu a'u bod wedi mynd yn ôl i Cynllunio. Mae gwaith ymchwilio yng nghyswllt y gwaith daear eisoes yn mynd rhagddo.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn Aelod am ddyraniad cyllid Blaenau Gwent ar gyfer Gwasanaethau Oedolion a Gwasanaethau Plant, esboniodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion y gall y broses ddyrannu a chynnig fod yn gymhleth gan fod ffrydiau cyllid refeniw a hefyd gyfalaf o fewn cynllun buddsoddiad yr ICF. Ers 2014 bu cylchoedd cynnig bob blwyddyn, os oedd prosiect oedd yn addas ar gyfer ICF ac yn gydnaws â blaenoriaethau strategol yr awdurdod lleol, yna cyflwynir cynnig i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae rhai prosiectau yn rhanbarthol felly byddai cyfran Blaenau Gwent o arian grant yn llai, gan y gallai gael ei rannu bum ffordd. Yng nghyswllt Gwasanaethau Plant a'r niferoedd critigol o blant y maent yn eu cefnogi, gellid cyfrannu peth o'r arian grant a ddyrannwyd i gefnogi prosiectau ehangach yng Ngwent.<br><br>Esboniodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol pan ddechreuodd y Gronfa Gofal Integredig gyntaf, ei fod yn ymwneud ag oedolion hŷn, daeth cyllid ar gyfer plant cymhleth i fodolaeth o 2016 ymlaen, yn hanesyddol mae llawer o'r cyllid wedi mynd i bobl hŷn a gwasanaethau oedolion, dim ond yn ddiweddar y gallodd yr Awdurdod wneud cais am gyllid plant a gallai hyn fod yn rhan o'r rheswm am y gwahaniaeth yn y dyraniad cyllid.<br><br>Yng nghyswllt yr argymhellion, holodd Aelodau os oes gan awdurdodau cyfagos ddulliau gwaith eraill. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion nad oedd awdurdodau cyfagos wedi sôn am ddulliau gweithredu gwahanol, pe byddai Blaenau Gwent eisiau gwneud rhywbeth sylweddol |

| | |
|---|---|
| | wahanol yna byddai hynny'n caei ei gyflwyno i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ei drafod.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cymeradwyo'r camau gweithredu sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd i werthuso effaith dod â swyddi a gwasanaethau a gyllidir gan ICF i ben yn y dyfodol. |

| Item ID | 4088 |
|---|---|
| Item Title | Adroddiad Blynyddol 2019/20 Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a gyflwynodd berfformiad Gwasanaeth Mabwysiadu De Ddwyrain Cymru (SEWAS) a'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol (NAS) ar gyfer 2019/20.<br><br>Siaradodd y Rheolwr Gwasanaeth, Gwasanaeth Mabwysiadu De Ddwyrain Cymru am yr adroddiad a thynnu sylw at y prif bwyntiau ynddo. Mae meysydd allweddol yr adroddiad yn cynnwys:-<br><br>• Plant a gafodd eu lleoli ac sy'n aros mabwysiadu;<br>• Galw am leoliadau mabwysiadu a recriwtio mabwysiadwyr;<br>• Deunyddiau taith bywyd; a<br>• Cefnogaeth mabwysiadu.<br><br>Ffurfiwyd y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn 2014 gyda chylch gorchwyl i wella recriwtio, amserau aros ar gyfer plant a gwella cefnogaeth opsiynau.<br><br>**<u>Prinder Mabwysiadwyr</u>**<br><br>Yng nghyswllt recriwtio mabwysiadwyr, dywedodd nawr y penodwyd Swyddog Recriwtio y dylai'r Awdurdod fod yn rhagweithiol wrth geisio recriwtio mabwysiadwyr, mae angen rhyw fath o hysbysebu i ddenu pobl i ymweld â'r wefan h.y. hysbysiadau ar gylchfannau ffordd ac yn y blaen. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth y gwnaed gwelliannau i'r wefan a bod y cyfuniad o'r cyfryngau cymdeithasol a'r wefan yn denu ymweliadau a soniodd hefyd y cynhaliwyd ymgyrch genedlaethol ym mis Hydref. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant fod gan SEWAS gynllun clir o fynychu digwyddiadau i godi ymwybyddiaeth yn y gymuned drwy gydol y flwyddyn, yn anffodus cafodd llawer o'r digwyddiadau hynny eu canslo oherwydd y pandemig.<br><br>Cynigiodd y Cadeirydd y byddid yn ymchwilio mwy o opsiynau hysbysebu ar gyfer recriwtio mabwysiadwyr i ddiwallu anghenion y gwasanaeth ymhellach.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor ar y llwybr gweithredu hwn. |

| | |
|---|---|
| | Gofynnodd Aelod pa gefnogaeth sydd yn ei lle ar gyfer mabwysiadwyr yng nghyswllt hyfforddiant. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth fod rhaglen hyfforddiant lawn pedwar diwrnod cyn i'r asesiad ddechrau.<br><br>Yng nghyswllt y prinder o fabwysiadwyr, holodd Aelod os oes prinder cenedlaethol neu os mai dim ond yn y de ddwyrain y mae prinder. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth fod rhai rhanbarthau'n gwneud yn well nag eraill ond mae llanw a thrai. Roedd rhai ardaloedd, ar ôl cymeradwyo mabwysiadwyr, yn cael oedi wrth baru mabwysiadwyr gyda phlant; nid oedd hyn yn digwydd yn SEWAS sydd yn rhannol oherwydd ansawdd yr asesiadau a wneir i gael y bobl gywir, sy'n helpu i'w paru yn gyflym.<br><br>Mynegodd y Cadeirydd a'r Aelodau Craffu eu diolch i'r staff a'u swyddogion am eu holl waith caled a'u dyfalbarhad mewn blwyddyn anodd.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor, yn amodol ar yr uchod, i argymell yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef ymchwilio mwy o opsiynau hysbysebu ar gyfer recriwtio mabwysiadwyr er mwyn diwallu anghenion y gwasanaeth. |

| Item ID | 4089 |
|---|---|
| Item Title | Blaenraglen Gwaith: 21 Ionawr 2021 |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad Cadeirydd Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol.<br><br>Ar ôl trafodaeth fer,<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef paratoi tri adroddiad ychwanegol a'u cynnwys ym Mlaenraglen Gwaith y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol:<br><br>i. Cyflwyno adroddiad yn diweddaru ar y costau cyfreithiol yn gysylltiedig gyda'r gwasanaeth, yr adroddiad i gynnwys astudiaethau achos di-enw;<br>ii. Adroddiad ar ddefnydd ymgynghorwyr a gyda ffocws neilltuol ar y costau a'r buddion yn gysylltiedig gyda'r gwasanaeth; ac<br>iii. Adroddiad yn diweddaru ar blant bregus yn ystod COVID-19 gyda ffocws ar broblemau yn deillio o gau ysgolion, i'w gyflwyno i'r cyfarfod ar 11 Mawrth 2021.<br><br>Gan mai hwn fyddai cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2020, manteisiodd yr Aelod Gweithredol Gwasanaethau Cymdeithasol ar y cyfle i ddiolch i'r uwch reolwyr a'r staff am eu cefnogaeth i'r Pwyllgor Craffu yn ei waith, yn arbennig yn y cyfnod heriol ac anodd hwn ac am y ffordd broffesiynol y mae Aelodau yn ymroi i waith pwysig iawn y Pwyllgor Gwasanaethau Cymdeithasol. |